

**Cofnodion wedi'u Cadarnhau o
Gyfarfod Cyd-bwyllgor Comisiynu (JCC) GIG Cymru
a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar
ddydd Mawrth 21 Mai 2024**

Microsoft "Neuadd y Dref (wedi'i ffrydio'n fyw)" Teams /
Yn Bersonol yn Charnwood Court, Nantgarw, CF15 7QZ

Aelodau:

Ian Green	(IG)	Cadeirydd, JCC GIG Cymru (yn bersonol)
Susan Elsmore	(SE)	Aelod Lleyg, JCC GIG Cymru (yn bersonol)
Richard Evans	(RE)	Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro, Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Bae Abertawe
Philip Kloer	(PK)	Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro, BIP Hywel Dda
Paul Mears	(PM)	Prif Swyddog Gweithredol, BIP Cwm Taf Morgannwg
Nicola Prygodzicz	(NP)	Prif Swyddog Gweithredol, BIP Aneurin Bevan
Suzanne Rankin	(SR)	Prif Swyddog Gweithredol, BIP Caerdydd a'r Fro
Chris Stockport	(ST)	Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Strategaeth, BIP Betsi Cadwaladr (Yn dirprwyo ar ran Carol Shillabeer)
Hayley Thomas	(HT)	Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Paul Worthington	(PW)	Aelod Lleyg, JCC GIG Cymru (yn bersonol)

Aelod Cyswllt:

Abigail Harris	(AH)	Prif Gomisiynydd Dros Dro, JCC GIG Cymru (yn bersonol)
----------------	------	--

Yn Bresennol:

Carole Bell	(CB)	Cyfarwyddwr Dros Dro Nyrsio ac Ansawdd, Tîm JCC GIG Cymru
Jacqui Maunder-Evans	(JME)	Ysgrifennydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Cyswllt Gwasanaethau Corfforaethol, Tîm JCC GIG Cymru (yn bersonol)
Stephen Harray	(SH)	Cyfarwyddwr y Bwrdd / Prif Gomisiynydd Gwasanaeth Ambiwlans Tîm JCC (yn bersonol)
Nicola Johnson	(NJ)	Cyfarwyddwr Dros Dro Cynllunio a Pherfformiad, Tîm JCC GIG Cymru (yn bersonol)
Lee Leyshon	(LL)	Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Tîm JCC GIG Cymru (yn bersonol)
Shane Mills	(SM)	Cyfarwyddwr Clinigol Dros Dro, Tîm JCC GIG Cymru (yn bersonol)
Gwenan Roberts	(GR)	Ysgrifennydd y Pwyllgor, Tîm JCC GIG Cymru
Stacey Taylor	(ST)	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwybodaeth, Tîm JCC (yn bersonol)
Ricky Thomas	(RT)	Pennaeth Gwybodeg, Tîm JCC GIG Cymru

Sylwedyddion:

Aled Brown	(AB)	Uwch Reolwr Polisi Gofal Brys, Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru
Rachel Marsh	(RM)	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (YGGAC)
Nick Wood	(NW)	Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru, Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru

Ymddiheuriadau:

Elizabeth Abderrahim	(EA)	Cadeirydd Panel Cais Cyllido Claf Unigol (IPFR) JCC GIG Cymru
Jason Killens	(JK)	Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Ian Phillips	(JP)	Cadeirydd Rhwydwaith Arenau Cymru, Tîm JCC GIG Cymru
Nia Roberts	(NW)	Aelod Lleyg, JCC GIG Cymru
Carol Shillabeer	(CS)	Prif Swyddog Gweithredol, BIP Betsi Cadwaladr

Cofnodion:

Helen Tyler	(HT)	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol, JCC GIG Cymru (yn bersonol)
-------------	------	--

Cyf. Cof.	Eitem Agenda
JCC24/020	<p>1.1 Croeso a Chyflwyniadau Croesawodd y Cadeirydd, Ian Green (IG), yr Aelodau a'r rhai presennol i gyfarfod Cyhoeddus Cyd-bwyllgor Comisiynu (JCC) GIG Cymru (gan ddefnyddio Llwyfan Neuadd y Dref Microsoft Teams) a gwnaed cyflwyniadau.</p> <p>Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cyfarfod gael ei ffrydio'n fyw a llwyddodd aelodau'r cyhoedd i wyllo'r cyfarfod drwy'r ddolen fyw. Cofnodwyd y cyfarfod a byddai ar gael ar wefan NWJCC. Nodwyd bod cworwm wedi ei gyflawni.</p>
JCC24/021	<p>1.2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb fel y'u rhestrir uchod. Croesawodd y Cadeirydd Chris Stockport a oedd yn dirprwyo dros Carol Shillabeer.</p>
JCC24/022	<p>1.3 Datganiadau Buddiant Cydnabu'r Cadeirydd fod gan bob Bwrdd Iechyd (HB) fuddiant yn nifer o eitemau'r agenda ac eglurodd y byddai unrhyw achos o wrthdaro</p>

Cyf. Cof.	Eitem Agenda
	<p>buddiannau'n cael ei gofnodi'n briodol wrth iddo godi. Dywedodd y Cadeirydd fod yn rhaid i'r Cyd-bwyllgor gyflawni ei ddyletswydd gyfunol i gydweithio i gomisiynu gwasanaethau ar gyfer poblogaeth Cymru a rhaid i unrhyw aelod unigol sy'n rhan o wneud penderfyniadau mewn perthynas â swyddogaethau'r Cyd-bwyllgor weithredu yn unol â'r egwyddor hon. Cadarnhaodd y Cadeirydd hefyd fod Aelodau Lleyg wrthi'n cwblhau eu ffurflenni datgan buddiannau ac y byddai'r rhain yn cael eu cyhoeddi yn y dyfodol agos.</p> <p>Datganodd Suzanne Rankin (SK) Prif Swyddog Gweithredol BIP Caerdydd a'r Fro (CVUHB) fuddiant yn eitem 2.3 ar yr agenda – mewn perthynas â'r gwasanaeth Ysgogi Ymennydd Dwfn (DBS) fel gweithiwr CVUHB yn gweithredu fel porthor y gwasanaeth a hefyd ar gyfer eitem agenda 3.3, yr Adroddiad Rhywedd am fod y JCC yn comisiynu CVUHB i ddarparu gwasanaethau hunaniaeth rhywedd i oedolion (heb fod yn llawfeddygol) drwy Wasanaeth Rhywedd Cymru (WGS).</p> <p>Ni wnaed datganiadau eraill o fuddiant yn ymwneud â'r eitemau i'w trafod ar yr agenda.</p>
JCC24/023	<p>1.4 Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ebrill 2024 a Materion yn Codi</p> <p>Cafodd cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Comisiynu (JCC) GIG Cymru a gynhaliwyd ar 23 Ebrill 2024 eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod, yn amodol ar fân ddiwygiad i'r rhestr o fynychwyr.</p> <p>Roedd un mater yn codi mewn perthynas ag eitem Adolygiad Gwasanaeth EMRTS. Gofynnodd Hayley Thomas (HT) i Stephen Harrhy (SH) gadarnhau a oedd y Cyd-bwyllgor wedi ysgrifennu'n ffurfiol at Llais yn dilyn cyfarfod diwethaf y JCC ar 23 Ebrill 2024. Cadarnhaodd SH eu bod wedi ysgrifennu at Llais a bod y llythyr wedi cael ei gydnabod ac y byddai SH a'i dîm yn cyfarfod â Llais ar 3 Mehefin 2024.</p>
JCC24/024	<p>1.5 Cofnod Camau Gweithredu</p> <p>Nododd yr aelodau gynnydd ar y camau gweithredu a amlinellir yn y cofnod camau gweithredu a chytunwyd bod y camau gweithredu a nodwyd fel rhai 'ar gau' wedi'u cwblhau.</p>
JCC24/025	<p>2.1 Adroddiad y Cadeirydd</p> <p>Cafwyd adroddiad y Cadeirydd, a nododd yr aelodau y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhaglen Gynefino'r Cyd-bwyllgor – cynhaliwyd cyfarfodydd rhagarweiniol â staff a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Aelodau Lleyg, Cyfarwyddwyr Dros Dro'r JCC, Cadeiryddion BI a Phrif Weithredwyr. Roedd sesiwn gynefino leol wedi dechrau ochr

Cyf. Cof.	Eitem Agenda
	<p>yn ochr â Rhaglen Gynefino ar gyfer Aelodau Annibynnol GIG Cymru Llywodraeth Cymru (LIC) gan ddigwydd ar 23 Ebrill, 4 Mehefin ac 11 Mehefin 2024.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Penodi Aelodau Lleyg - Er mwyn sefydlu'r JCC newydd, cynhaliodd Uned Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru broses recriwtio penodiadau cyhoeddus i benodi Cadeirydd newydd a thri aelod lleyg annibynnol yn barod ar gyfer 1 Ebrill 2024. A'r Cyd-bwyllgor bellach wedi'i sefydlu a'r broses bontio wedi dechrau, roedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cytuno i fynd ati i recriwtio'r ddau aelod lleyg terfynol yn unol â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024 a Rheolau Sefydlog y JCC. <p>Yn dilyn cynnig a gyflwynwyd gan y Cadeirydd, cytunwyd y byddai Paul Worthington yn cael ei benodi fel arweinydd Archwilio a Chyllid dros dro ar gyfer Pwyllgor Archwilio a Risg (ARC) BIPCTM ar gyfer cyrff a gynhelir; a bod Susan Elsmore yn cael ei phenodi i rôl Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion (QPSC) ar gyfer y JCC am gyfnod dros dro nes penodi'r cyflenwad llawn o 5 aelod lleyg.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Strwythur is-bwyllgorau – Cynhaliwyd trafodaethau o ran cynigion ar gyfer strwythur yr is-bwyllgorau a byddai diweddariad yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf er mwyn cadarnhau cyn gynted â phosibl. • Llythyr Swyddog Atebol – Cadarnhaodd y Cadeirydd fod copi o'r llythyr Swyddog Atebol (AO) wedi ei gael gan Brif Weithredwr GIG Cymru, yn cadarnhau penodiad Abigail Harris (AH) mewn perthynas â'r materion sy'n ymwneud â'r JCC. Cytunodd y Cadeirydd i rannu'r llythyr ar gais. • Cyfarfodydd Allweddol a fynychwyd gan y Cadeirydd. <p>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi'r adroddiad.
JCC24/026	<p>2.2 Penodi Is-gadeirydd</p> <p>Cafwyd yr adroddiad yn cynnig penodi Is-gadeirydd i'r Cyd-bwyllgor Comisiynu (JCC) gan yr Aelodau Lleyg. Y nod oedd sicrhau parhad busnes pe bai'r Cadeirydd yn absennol oherwydd gwyliau neu am resymau eraill. Cytunwyd i benodi Nia Roberts, Aelod Lleyg, i swydd Is-gadeirydd y Cyd-bwyllgor am ddwy flynedd tan 30 Ebrill 2026, yn unol ag adran 6.1.4 Rheolau Sefydlog y JCC. Nodwyd nad oedd y rôl yn denu tâl ychwanegol.</p>

Cyf. Cof.	Eitem Agenda
	<p>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi'r adroddiad; a • Chymeradwyo penodi Nia Roberts, yn Is-gadeirydd am ddwy flynedd.
JCC24/027	<p>2.3 Adroddiad y Prif Gomisiynydd Dros Dro</p> <p>Cafwyd adroddiad y Prif Gomisiynydd Dros Dro a nododd yr aelodau'r diweddariadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaeth Ysgogi Ymennydd Dwfn (DBS) - Roedd gwasanaethau DBS ar gyfer pobl yn ne Cymru sydd â chlefyd Parkinson ac anhwylderau symud wedi cael eu darparu gan Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Bryste (NBNHST). <p>Fodd bynnag, roedd Tîm y JCC (WHSSC gynt) wedi cael gwybod am bryderon yn ymwneud â'r gwasanaethau hyn, yn enwedig mewn perthynas â chyfathrebu ar gyfer gofal ôl-lawdriniaeth. Yn dilyn sawl trafodaeth gyda NBNHST, nid oedd y pryderon hyn wedi'u datrys na'u dwyn i benderfyniad amserol. O ganlyniad, roedd angen i'r JCC nodi ateb dros dro i sicrhau bod cleifion newydd o dde Cymru yn gallu cael gwasanaethau DBS o ansawdd uchel wrth symud ymlaen.</p> <p>O fewn y cyd-destun hwn, roedd Tîm y Cyd-bwyllgor wedi penderfynu bod angen newid gwasanaeth dros dro ar frys. Trafodwyd hyn gyda Llais Cymru a oedd yn cefnogi'r penderfyniad. Roedd 'proses darparwr dynodedig' wedi'i chynnal ac roedd darparwr gwasanaeth ychwanegol wedi'i ddyndodi (Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Ysbytai Athrofaol St George). Er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl a chynnal parhad i'r cleifion hynny a oedd eisoes ar y llwybr neu a oedd wedi cael DBS yn NBNHST, cytunwyd y byddent yn parhau i gael gofal dilynol fel y cynlluniwyd. Cadarnhaodd yr adroddiad hefyd y byddai trafodaethau comisiynu'n dechrau ynghylch ailsefydlu mynediad at NBNHST.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) y JCC - Amlinellodd y Prif Gomisiynydd Dros Dro gynigion ar gyfer datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig y JCC 2025/2026 a oedd yn cydnabod y byddai 2024/2025 yn flwyddyn bontio wrth i'r JCC ddod yn gwbl sefydledig. Cynigiwyd i'r cynllun gael ei ddatblygu gydag adran gyffredinol o fwriad strategol a chorfforaethol yn cydreded; gydag un cynllun ariannol a thri chynllun gweithredu ('pennod') ar gyfer: <ol style="list-style-type: none"> 1. Comisiynu Ambiwlansys ac 111 2. Comisiynu Gwasanaethau Arbenigol, a

Cyf. Cof.	Eitem Agenda
	<p>3. Comisiynu Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau Agored i Niwed</p> <p>Y bwriad parhaus fyddai integreiddio pellach o 2026/2027 ymlaen. Roedd gwaith yn cael ei wneud gyda Chyfarwyddwyr GIG Cymru o Grŵp Cymheiriaid Cynllunio i nodi unrhyw wersi a ddysgwyd o'r broses ar gyfer y cynlluniau eleni. Hefyd, roedd Gweithgor Cyllid yn cael ei sefydlu gan Gyfarwyddwr Cyllid a Gwybodaeth y JCC a fyddai'n integreiddio â'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Byddai adroddiad manylach ar ddatblygiad y Cynllun hwnnw gan y JCC yn cael ei gyflwyno yn y JCC ar 16 Gorffennaf 2024.</p> <ul style="list-style-type: none"> <p>Gweithdy'r Gwasanaeth Cludo Cleifion mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys (NEPTS) - Ym mis Rhagfyr 2023, cymeradwyodd y cyn-Bwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC) ddatblygiad gweledigaeth newydd ar gyfer y dyfodol am Wasanaeth Cludo Cleifion mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys (NEPTS).</p> <p>Ar 20 Ebrill 2024, cynhaliodd Tîm y JCC Ddigwyddiad Gweledigaeth y Dyfodol NEPTS. Y digwyddiad hwn oedd cam cyntaf y cydweithio â sefydliadau GIG Cymru a phartneriaid allanol, i lunio gweledigaeth newydd ar gyfer NEPTS yng Nghymru. Byddai'r gwaith yn cael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor i'w ystyried mewn manau penderfynu allweddol a cherrig milltir allweddol.</p> <p>Diweddariad 111 - trosglwyddwyd cyfrifoldeb am gomisiynu trin galwadau 111 a chyngor clinigol i'r JCC ar 1 Ebrill 2024. Roedd y trosglwyddiad yn ddiffwdan ac roedd cysylltiad agos o hyd â'r tîm 111 blaenorol sydd bellach yn rhan o'r tîm sy'n cefnogi Rhaglen y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng yng Ngweithrediaeth y GIG. Gweithredwyd y System Ateb Galwadau (CAS) newydd yn ystod y 10 diwrnod diwethaf yn llwyddiannus ac roedd parhad gwasanaeth wedi'i gynnal, er bod rhai gostyngiadau perfformiad dros dro wedi'u nodi. Byddai'r CAS newydd yn cynnig cyfleoedd i wella'r gwasanaethau presennol a byddai diweddariadau pellach ar gynnydd yn cael eu darparu i'r JCC.</p> <p>Strategaeth Gomisiynu Gwasanaethau Adsefydlu Arbenigol Oedolion - Y JCC sy'n gyfrifol am gomisiynu Gwasanaethau Adsefydlu Arbenigol ar gyfer cyflyrau niwrolegol ar ran y saith Bwrdd Iechyd ac mae gwasanaethau'n cael eu darparu gan ganolfannau trydyddol ar draws safleoedd y GIG yng Nghymru a Lloegr. Mae'r strategaeth gomisiynu ddrafft ar gyfer gwasanaethau adsefydlu arbenigol i oedolion yn nodi gweledigaeth a blaenoriaethau cyffredinol y JCC ar gyfer y pum mlynedd nesaf i wella mynediad teg at wasanaethau adsefydlu</p>

Cyf. Cof.	Eitem Agenda
	<p>arbenigol o ansawdd uchel ar gyfer poblogaeth oedolion Cymru. Cafodd y strategaeth ddrafft ei hystyried gan Grŵp Rheoli WHSSC gynt ym mis Chwefror 2024 ac fe'i cefnogwyd i'w hystyried gan Gyd-bwyllgor WHSSC gynt ym mis Mawrth 2024, ond cafodd hyn ei oedi oherwydd y pontio i'r JCC newydd. Byddai'r strategaeth ddrafft yn cael ei chadarnhau a'i chyflwyno i'r JCC yn ddiweddarach yn y flwyddyn yn dilyn adborth gan randdeiliaid. Byddai'r strategaeth derfynol yn cael ei chyflwyno i'r JCC yn y chwarter olaf er mwyn adlewyrchu cymeradwyaeth yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig 2025/2026.</p> <ul style="list-style-type: none"> Gweithredu Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru - Daeth y rhaglen waith i sefydlu JCC GIG Cymru newydd yn effeithiol ar 1 Ebrill 2024. Cynhaliwyd cyfarfod terfynol Bwrdd Goruchwylio LIC ar 30 Ebrill 2024 i gwblhau trefniadau'r rhaglen. Cafodd aelodau'r JCC y cynllun trosiannol ar gyfer Chwarter 1 2024-2025 yn ei gyfarfod ar 9 Ebrill 2024. Fel yr argymhellwyd yng nghynllun pontio Ch1, byddai Cyfarwyddwr Pontio/Trawsnewid yn cael ei benodi i weithio gyda'r Cadeirydd, y Prif Gomisiynydd, y Cyd-bwyllgor a Thîm y Cyd-bwyllgor i gefnogi datblygiad Model Gweithredu'r JCC. <p>Byddai'r Cyfarwyddwr Pontio/Trawsnewid yn rhoi'r fframwaith llywodraethu ar waith ac yn sicrhau bod y cynlluniau comisiynu yn cael eu cyflawni ar gyfer 2024/2025; byddai adroddiadau sicrwydd yn cael eu rhoi i'r JCC fel y bo'n briodol.</p> <p>GWEITHRED: Ar ôl cael adborth ysgrifenedig ar Gynllun Comisiynu Integredig WHSSC gynt a Chynllun Tymor Canolig Integredig EASC gynt gan Lywodraeth Cymru, byddai'r llythyrau'n cael eu rhannu gydag aelodau'r JCC.</p> <p>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Nodi'r adroddiad.
JCC24/028	<p>2.4 Diweddariad Adolygiad Gwasanaeth y Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS) am y Cynllun Gweithredu</p> <p>Cafwyd adroddiad yn cyflwyno diweddariad i'r Cyd-bwyllgor Comisiynu (JCC) ar y cynllun gweithredu ar gyfer Adolygiad Gwasanaeth y Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS).</p> <p>Nododd yr Aelodau fod y Cyd-bwyllgor yn ei gyfarfod ar 23 Ebrill 2024 wedi cytuno i gefnogi'r argymhellion a nodwyd yn adroddiad Adolygiad Gwasanaeth EMRTS ac wedi gofyn am ddod â manylion</p>

Cyf. Cof.	Eitem Agenda
	<p>ychwanegol ar y cynllun gweithredu ar gyfer y gwasanaeth ymateb pwrpasol ar y ffyrdd yn ôl i gyfarfod mis Mai yn amlinellu cerrig milltir allweddol.</p> <p>Cyflwynodd Stephen HARRY (SH) yr adroddiad a rhoddodd sicrwydd i'r aelodau, yn dilyn y penderfyniad a wnaed ar 23 Ebrill 2024, fod nifer o ddarnau o ohebiaeth wedi'u cael, ac yr ymatebwyd iddynt i gyd. Datblygwyd ymateb safonol i'w roi i unrhyw ohebiaeth bellach a geir. Esboniodd SH eu bod yn cyfarfod â Phenathiaid Ymgysylltu a Chyfathrebu mewn BI yn rheolaidd i sicrhau bod neges gyson yn cael ei rhannu a bod byrddau iechyd yn cael eu diweddarau.</p> <p>Esboniodd SH fod Ymddiriedolaeth Elusen Ambiwylans Awyr Cymru (WAACT) wedi croesawu penderfyniad y Pwyllgor i dderbyn argymhellion yr Adolygiad. O ganlyniad i'r penderfyniad, roedd yr Elusen wedi dechrau ymgysylltu'n weithredol â'i rhanddeiliaid ar weithredu'r argymhellion i ddod o hyd i ganolfan addas. Parhaodd WAACT hefyd i fonitro ymateb y cyhoedd a rhanddeiliaid i'r penderfyniad a'r effaith bosibl ar eu sefyllfa incwm a chyllido; byddai diweddariadau rheolaidd yn cael eu darparu i'r JCC ar unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg i weithrediad yr Elusen.</p> <p>Esboniodd SH fod tîm arwain EMRTS wedi croesawu'r sicrwydd a ddaeth yn sgil y penderfyniad iddynt hwy a'u timau gweithredol. Roedd y tîm yn canolbwyntio ar ddatblygu'r cynllun gweithredu gweithredol a chefnogi staff ledled Cymru drwy'r newidiadau sydd eu hangen fel rhan o'r gwaith gweithredu.</p> <p>Nododd yr Aelodau fod trafodaethau cychwynol wedi'u cynnal gyda Phrif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WAST) a Chyfarwyddwr Clinigol EMRTS ar ddatblygu gwasanaeth pwrpasol ar y ffyrdd a'u bod wedi cadarnhau eu cefnogaeth sefydliadol i ddatblygu a gweithredu gwasanaeth o'r fath. Byddai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn arwain ar ddatblygu cynllun cyflawni i'r gofynion comisiynu ar gyfer y model pwrpasol ar y ffyrdd a byddai'n darparu diweddariadau ac argymhellion i'w cymeradwyo i'r JCC yn dilyn pob cyfarfod yn erbyn y cerrig milltir. Yn ogystal, byddai diweddariadau rheolaidd ar gynnydd yn erbyn cynllun y prosiect a'r cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu yn cael eu darparu. Byddai'r Cyd-bwyllgor yn cael canlyniad y gwaith hwn yn y cyfarfod a gynlluniwyd ym mis Hydref 2024.</p> <p>Daeth SH i ben drwy ddarparu crynodeb o'r llinell amser lefel uchel a'r bwriad i gyhoeddi'r bwriadau Comisiynu erbyn mis Hydref 2024. Byddai angen i'r model gwasanaeth newydd fod ar waith erbyn mis Ebrill 2025 a byddai'r symud i'r canolfannau newydd yn digwydd</p>

Cyf. Cof.	Eitem Agenda
	<p>rhwng mis Mehefin a mis Medi 2026. Esboniodd SH y byddai digon o amser i'r trefniadau pwrpasol newydd ymsefydlu cyn i unrhyw ganolfannau symud.</p> <p>O ran y bwriadau comisiynu crynhodd SH y pwyntiau allweddol canlynol ynghylch y llinell amser:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Eglurder ynghylch y meini prawf ymateb clinigol • Eglurder ynghylch y modelu a fyddai'n cael ei wneud i ddiffinio'r lleoliadau (gwaith i'w wneud yn ystod haf 2024) • Datblygu'r model gweithredol fel y'i diffinnir yn y bwriadau comisiynu a ddatblygwyd erbyn mis Medi 2024 (i'w ddychwelyd i'r JCC ym mis Hydref 2024). <p>Gofynnodd y Cadeirydd i SH am lefel ei hyder o ran cyflawni'r rhaglen waith hon erbyn cyfarfod mis Hydref 2024. Esboniodd SH ei fod yn hyderus y gellid cyflawni'r mesurau uchod erbyn yr amserlenni uchod ac ymrwymodd SH i ddarparu diweddariadau i'r Cyd-bwyllgor ym mhob cyfarfod.</p> <p>Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau am y pryderon a godwyd gan gydweithwyr o BIPBC, BIAp a BIPHDd yn y cyfarfod diwethaf a phwysleisiodd fod angen ymgysylltu'n rhagweithiol â'r byrddau iechyd hynny ynghylch ffurf y gwasanaeth a fyddai'n cael ei gomisiynu.</p> <p>Bu SH yn sicrhau'r aelodau am y dull gweithredu parhaus o ran y gwaith i sicrhau cydweithio â'r byrddau iechyd a chynigiodd hefyd sefydlu trefniadau penodol ar gyfer y tri bwrdd iechyd pe na bai unrhyw bryderon penodol yn cael sylw yn y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.</p> <p>Nododd yr Aelodau fod yr Elusen a'i staff, o ganlyniad i'r penderfyniad, wedi bod yn destun sylwadau ac ymddygiadau anodd ac amhriodol. Gofynnodd Susan Elsmore (SE) am sicrwydd y byddai ymgysylltiad parhaus â'r Elusen wrth symud ymlaen. Eglurodd SH fod hyn yn amlygu bod angen cael cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu penodol a bod angen i hyn gynnwys EMRTS a'r Elusen. Sicrhaodd SH yr aelodau fod gwaith i ddatblygu'r cynllun ar y gweill ac y byddai cynnydd hefyd yn cael ei gyflwyno i'r JCC fel rhan o'r diweddariad rheolaidd.</p> <p>Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig nodi'r heriau sy'n wynebu staff ac eglurodd fod yr Elusen yn darparu cymorth ychwanegol i'w staff mewn ymateb i hyn. Roedd hyn yn dangos cryfder parhaus y teimladau (mewn rhai ardaloedd lleol) a'r gwahaniaeth barn mewn perthynas â'r penderfyniad a wnaed. Byddai'r ymgysylltu rhagweithiol parhaus yn hanfodol dros yr ychydig fisoedd nesaf wrth</p>

Cyf. Cof.	Eitem Agenda
	<p>i waith i gyfleu buddion y cynnig a gymeradwywyd yng nghyfarfod diwethaf y JCC gael ei rannu'n ehangach.</p> <p>Diolchodd Philip Kloer (PK) i SH am yr amserlen a mynegodd rywfaint o bryder ei bod yn ymddangos yn dynn yn enwedig o ystyried natur sylweddol y penderfyniadau y byddai'n ofynnol eu gwneud yn ystod pob mis; ac awgrymodd y byddai gofyn trafod y penderfyniadau ac amser i fyfyrion ac ystyried. Gofynnodd PK a oedd llinell amser ar wahân yn eistedd y tu ôl i'r llinell amser lefel uchel gan y byddai angen i bob cam symud ymlaen yn gyflym.</p> <p>Ategodd HT sylwadau PK ynghylch yr amserlen gywasgedig i gyflawni'r gwaith hwn ac awgrymodd y byddai angen diweddariad ar gynnydd yn holl gyfarfodydd y JCC yn erbyn cyflawni'r cynllun gweithredu fel y'i darparwyd.</p> <p>Gofynnodd HT am weld y Cylch Gorchwyl i sicrhau bod adroddiadau clir i'r JCC a gofynnodd hefyd am eglurhad, er y byddai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn datblygu argymhelliad consensws ynghylch y model, o safbwynt penderfynu y byddai'r JCC yn parhau'n gyfrifol am gymeradwyo unrhyw allbwn o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Gofynnodd HT sut y byddai unrhyw wahaniaeth barn yn cael ei drin yn y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sut y byddai llais y cyhoedd yn cael ei gynnwys mewn unrhyw drafodaethau ac, os na ellid datrys problemau, a oes modd eu huwchgyfeirio'n ôl at y Cyd-bwyllgor cyn gynted â phosibl a pheidio ag aros tan yr adroddiad terfynol ym mis Hydref 2024 i godi materion. Cododd HT hefyd bwysigrwydd trin y cyfathrebu a'r ymgysylltu; er ei bod yn ymddangos yn syml, byddai hyn yn cymryd ymdrech aruthrol i'w gael yn iawn, ac roedd yn croesawu cael copi o'r cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu cyn gynted â phosibl i ddeall mwy am fanylion y gwaith a chyfranogiad rhanddeiliaid.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i HT am y sylwadau a'r amlinelliad o'r camau gofynnol a chytunodd y byddai'r JCC yn parhau i fod y penderfynwr.</p> <p>Cytunodd AH y byddai angen dod â'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn ôl i'r JCC ond amlygodd na fyddai unrhyw gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor wedi'u trefnu i'w cynnal ym mis Awst 2024. Awgrymodd AH y gallai fod angen cyfarfod arbennig neu ryw ffordd o gyfathrebu yn ystod mis Awst 2024 i sicrhau nad oedd oedi a bwch yn y dilyniant a'r broses o wneud penderfyniadau.</p> <p>Sicrhodd SH yr aelodau y byddai cynllun strwythuredig rheoli prosiect cynhwysfawr yn cael ei ddatblygu i sicrhau cynnydd yn erbyn y camau hyn a, phe byddai angen, byddai camau lliniaru yn cael eu nodi a'u gweithredu. Cytunodd SH hefyd y byddai'r Cyd-bwyllgor yn</p>

Cyf. Cof.	Eitem Agenda
	<p>gwneud unrhyw benderfyniad sy'n ofynnol a chytunodd fod angen darparu diweddariadau rheolaidd i'r Cyd-bwyllgor ar gynnydd. Eglurodd SH y byddai'r gwaith gyda phenaethiaid cyfathrebu ac ymgysylltu yn parhau ar lefel bwrdd iechyd ac y byddai cynlluniau neu ddogfennau'n cael eu datblygu ar y cyd i gefnogi'r gwaith. Mewn perthynas â'r cylch gorchwyl ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, awgrymodd SH y gellid dosbarthu'r rhain i'r aelodau er mwyn caniatáu unrhyw sylwadau (y tu allan i gyfarfodydd y JCC) a chytunodd y gellid cynnal penderfyniad i gymeradwyo drwy Weithred Cadeirydd i sicrhau y gellid cynnal momentwm pan fyddai aelodau'n cael cyfle i wneud sylwadau. Cytunodd y Cadeirydd fod hwn yn ddull synhwyrol a phwysleisiodd mai cael y cydbwysedd cywir rhwng amseroldeb a thrylwyredd fyddai'r allwedd i lwyddiant wrth gyflawni'r gwaith.</p> <p>Cynigiodd y Cadeirydd fod SH yn cadeirio'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen i'r JCC i sicrhau parhad a gofynnodd a oedd yr aelodau'n gyfforddus gyda'r aelodaeth arfaethedig. Ni chododd unrhyw aelodau unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig i SH gadeirio'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen.</p> <p>Atgoffodd Paul Worthington (PW) yr aelodau am y ddeiseb barhaus a'i chyflwyniad tebygol i'r Senedd - roedd oddeutu 8,500 o lofnodion hyd yma. Ar ôl i'r llofnodion gyrraedd 10,000 gallai hyn ysgogi dadl yn y Senedd. Nododd yr Aelodau fod hwn yn fater gwleidyddol sensitif o hyd.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu sylwadau a phenderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Drafod a chymeradwyo'r llinell amser ar gyfer cyflwyno'r dull comisiynu ar gyfer y model pwrpasol ar y ffyrdd, • Trafod a chymeradwyo'r aelodaeth arfaethedig a chadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, • Trafod a nodi sefyllfa'r cyhoedd a rhanddeiliaid mewn perthynas â phenderfyniad y JCC, • Trafod a nodi sefyllfa WAACT mewn perthynas â phenderfyniad y JCC; a • Thrafod a nodi sefyllfa tîm Arweinyddiaeth EMRTS mewn perthynas â phenderfyniad y JCC.
JCC24/029	<p>2.5 Rhaglen Trawsnewid Newyddenedigol Cam 2</p> <p>Cafwyd a chyflwynwyd gan NJ yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar Adolygiad Cam 2 y Rhaglen Trawsnewid Newyddenedigol y cytunwyd arni i ymgymryd â chynllunio strategol ar y model gwasanaeth (a dynodi cotiau i sicrhau bod model effeithlon a chynaliadwy ar waith i gefnogi'r canlyniadau gorau posibl i famau a babanod yng Nghymru). Nodwyd y cytunwyd yn flaenorol y byddai'r Adolygiad yn cael ei</p>

Cyf. Cof.	Eitem Agenda
	<p>gynnal ar y cyd rhwng y JCC a'r byrddau iechyd oherwydd yr angen i ystyried gwasanaethau newydd-enedigol a mamolaeth gyda'i gilydd.</p> <p>Nododd yr Aelodau y gwaith ymgysylltu a wnaed gyda Grŵp Cymheiriaid Cyfarwyddwyr Cynllunio (DoP) GIG Cymru a Grwpiau Cymheiriaid eraill wrth ddylunio'r Rhaglen Cyfnod 2 Newyddenedigol, gan gynnwys cwrpas ac amserlenni dangosol y rhaglen a'r cais am yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r rhaglen yn llwyddiannus.</p> <p>Mynegodd Paul Mears (PM) ei gefnogaeth i'r gwaith hwn ond awgrymodd fod angen cydbwysedd ac angen cynnal Adolygiad wedi'i strwythuro'n dda gyda'r ansicrwydd a allai ddod yn sgil adolygiadau gwasanaethau ac effaith bosibl hyn ar staffio a'r gweithlu. Awgrymodd PM bwysigrwydd sicrhau cyfathrebu ac ymgysylltu da â staff fel ystyriaeth allweddol a hefyd gyda'r rhanddeiliaid a'r cymunedau ehangach. Tynnodd PM sylw at yr her sylweddol gyda charfannau o fenywod / mamau fel y rhai dan 25 oed, o ardaloedd difreintiedig a'r rhai heb drafnidiaeth ar gael iddynt; yr angen i ystyried yn ofalus na ddylai unrhyw newidiadau waethygu amddifadedd. Ailadroddodd PM ei gefnogaeth i'r broses ond gyda'r cafiat fod ystyriaeth ofalus mewn perthynas ag ymgysylltu â staff ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn hanfodol gan fod angen i hyn fod yn ehangach nag ad-drefnu gwasanaethau'n glinigol yn unig. Ar ben hynny, dylai hefyd ymwneud â gwella canlyniadau clinigol ac iechyd i gymunedau.</p> <p>Cytunodd Nicola Prygodzicz (NP) fod hwn yn faes gwaith pwysig a chytunodd â'r materion cyfathrebu ac ymgysylltu a godwyd gan PM ac awgrymodd bwysigrwydd cael mewnbwn a chynrychiolydd iechyd cyhoeddus ar y gweithgor a bod angen diogelu'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol cyn belled ag y bo modd. Esboniodd NP eu bod wedi nodi ar ôl COVID fod cyfradd y diabetes yn ystod beichiogrwydd, niferoedd y mamau risg uchel a chyfraddau toriadau Cesaraidd i gyd wedi cynyddu'n sylweddol. Cadarnhaodd NP er cywirdeb nad oedd Ysbyty Brenhinol Gwent a Nevill Hall bellach yn unedau dan arweiniad bydwragedd fel y cyfeirir atynt yn yr adroddiad.</p> <p>Cytunodd NP i fod yn Uwch Swyddog Cyfrifol (SRO) ar gyfer y rhaglen. A hithau'n gyn-Gadeirydd y Rhwydwaith Newyddenedigol, cadarnhaodd NP ei bod yn gyfarwydd â'r trefniadau contractio presennol ac y byddai'n falch o Gadeirio'r rhaglen waith hon wrth symud ymlaen.</p> <p>Cytunodd Phil Kloer (PK) fod angen ystyried gofal newyddenedigol a mamolaeth gyda'i gilydd gan y byddai'n anodd datod y gwasanaethau hyn. Cytunodd â PM ynghylch sensitifrwydd staff a'r cyhoedd, ond ni</p>

Cyf. Cof.	Eitem Agenda
	<p>wnaeth hyn ddileu pwysigrwydd y gwaith. Roedd PK hefyd yn cefnogi'r awgrym o gael cynrychiolaeth iechyd cyhoeddus i sicrhau'r dull gweithredu ehangaf posibl, nad yw o safbwynt model meddygol yn unig. Nodwyd pwysigrwydd cydweithio â meysydd gwaith eraill ac amlygwyd chwe wythnos gyntaf bywyd a gofal cyn beichiogi er enghraifft. Fel Prif Weithredwr o fwrdd iechyd mwy gwledig, mynegodd PK hefyd fod angen osgoi datblygu model gyda chanolbwynt trefol.</p> <p>Mynegodd SR ei chefnogaeth a myfyriodd ynghylch ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyd-gynhyrchu a mynegodd bryder ynghylch lefelau marwolaethau mamau duon a lleiafrifoedd ethnig ac amlygodd fod angen sicrhau y cynrychiolir y grŵp hwn. Yn ogystal, nododd SR fod angen ystyried anghenion lles y teulu a thynnodd sylw at bwysigrwydd llety fel y gallai teuluoedd aros yn hir oddi cartref pe bai angen.</p> <p>Esboniodd SR bwysigrwydd bod yn glir mewn perthynas â heriau'r gweithlu a'r realiti y tu ôl i'r heriau staffio. Roedd SR yn awyddus i gynnwys y bobl iawn mewn gwaith oherwydd oni bai bod hyn yn digwydd, ni fyddai'r cyfraddau marwolaethau, y problemau rheoli heintiau ac ati yn gwella.</p> <p>Gwnaeth Richard Evans (RE) gymeradwyo a chytuno â sylwadau blaenorol a wnaed a chyd-nabu fynychder diabetes Math 2 a'r cynnydd mewn bechiogrwydd risg uchel o fewn ardal BIPBA.</p> <p>Cytunodd RE fod yr heriau mewn unedau mamolaeth yn aml yn cynnwys heriau recriwtio ac y gallai cynnal adolygiad annog staff i ystyried ymhle y dewisent weithio. Byddai'n hanfodol bod unedau mamolaeth yn cael eu cynnal i'r lefelau presennol wrth ddisgwyl canlyniad yr Adolygiad hwn.</p> <p>Cytunodd Hayley Thomas (HT) hefyd fod hwn yn ddarn pwysig o waith a bod mawr ei angen ond awgrymodd ei bod hefyd yn bwysig, o ran cwmpas, ystyried y trafodaethau sy'n digwydd dros y ffin yn ogystal ag ar draws ac o fewn Cymru. Roedd HT yn awyddus i osgoi sefyllfa lle gallai gwahanol raglenni gwaith wneud penderfyniadau strategol gwahanol gan bwysleisio'r angen i gydbwysu'r farn Cymru gyfan yng nghyd-destun a chwmpas y gwaith.</p> <p>O ran yr angen i sicrhau y byddai'r ymgysylltu mor gynhwysol â phosibl, holodd PM a oedd angen sefydlu grŵp ymgysylltu neu gyfeirio a fyddai'n dod â grwpiau amrywiol o'r boblogaeth ynghyd i ddarparu eu safbwyntiau unigryw. Gallai'r broses fetu heb yr ymgysylltu cywir a gallai hyn fod ar ffurf is-grŵp. Gofynnodd PM hefyd</p>

Cyf. Cof.	Eitem Agenda
	<p>ymlle fyddai Gweithrediaeth a Rhwydweithiau'r GIG yn ffitio fel rhan o'r broses hon i sicrhau eu bod yn cyd-fynd. Hefyd, byddai angen sgwrsiau cynnar gyda Llywodraeth Cymru o ran unrhyw oblygiadau ynghylch ystâd, cynllunio cyfalaf, costau offer, capasiti ychwanegol a staffio.</p> <p>Cytunodd PW â'r sylwadau a wnaed yn flaenorol ac adleisiodd yr angen am gymorth effeithiol i raglenni, a byddai cael at arbenigedd i ddeall y data yn allweddol gan fod daearyddiaeth yr ardal yn gymhleth. Rhannodd PW bryderon hefyd ynghylch yr ansicrwydd i staff wrth i gynigion ar gyfer newidiadau modelau gwasanaeth gael eu hadrodd yn 2026. Roedd hwn yn gyfnod hir i reoli ansicrwydd a gallai arwain at risg glinigol. Byddai angen rheoli'r ymgysylltu'n dda ac yn gynhwysfawr gan y byddai angen cynnwys llawer o randdeiliaid.</p> <p>Cytunodd AH â'r sylwadau ynghylch pwysigrwydd ymgysylltu effeithiol a'r angen i gysylltu â Llais yn gynnar yn y broses. Cafodd y cynnig i sicrhau cyngor a chymorth annibynnol ychwanegol mewn perthynas â'r ffrwd waith ymgysylltu ei atgyfnerthu hefyd. Pwysleiswyd hefyd yr angen i adlewyrchu materion cydraddoldeb, tegwch ac amrywiaeth yn y gwaith. Sicrhodd AH yr aelodau y byddai Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei ddefnyddio i lywio'r dull gweithredu cyn gynted â phosibl. Cytunwyd y byddai Dogfen Cychwyn Rhaglen yn cael ei llunio a'i chyflwyno i'r JCC i'w chymeradwyo.</p> <p>Croesawodd AH hefyd yr awgrymiadau i gynnwys iechyd y cyhoedd i sicrhau ffocws ar iechyd y boblogaeth ac i sicrhau bod materion o'r holl gymunedau amrywiol y mae angen i'r rhaglen waith hon eu cynrychioli yn cael eu hadlewyrchu. Parhaodd cam gweithredu i'r JCC mewn perthynas â sut y ceir mwy o fewnbwn iechyd cyhoeddus ac roedd hyn yn enghraifft dda o bâm roedd angen hyn i helpu i lywio gwaith y JCC.</p> <p>Diolchodd NJ i'r aelodau am eu cefnogaeth unfrydol i'r rhaglen waith flaenoriaeth uchel hon a diolchodd i NP am wirfoddoli i arwain y rhaglen fel Uwch Swyddog Cyfrifol.</p> <p>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi'r cytundeb blaenorol gan Gyd-bwyllgor WHSSC ar y pryd i ymgymryd â Rhaglen Trawsnewid Cam 2 ar gyfer Gwasanaethau Newyddenedigol, • Nodi'r ymgysylltiad cyn-gynllunio sydd wedi digwydd i ddylunio'r Rhaglen a datblygu'r Achos dros Newid, • Cymeradwyo cwmpas, cylch gwaith a dyluniad lefel uchel y Rhaglen; a

Cyf. Cof.	Eitem Agenda
	<ul style="list-style-type: none"> • Chymeradwyo'r gofynion adnoddau ariannol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen yn llwyddiannus.
JCC24/029	<p>3.1 Adroddiadau Perfformiad Perfformiad EASC (gan gynnwys dangosyddion y Gwasanaeth Ambiwylans) – Mawrth 2024</p> <p>Cyflwynodd y Prif Gomisiynydd Dros Dro yr adroddiad gan nodi bod adrannau'r adroddiad yn adlewyrchu'r arddull a'r cynnwys a ddatblygwyd yn y pwyllgorau rhagflaenol. Byddai gwaith yn cael ei wneud gyda'r JCC i benderfynu sut y dylid datblygu'r adroddiad perfformiad integredig dros amser i adlewyrchu cylch gwaith llawn y JCC.</p> <p>Roedd y Cadeirydd yn cytuno a chydabod bod yr adroddiadau presennol wedi'u datblygu ar gyfer y pwyllgorau rhagflaenol ac roedd yn awyddus i gael adborth ar yr hyn y byddai aelodau yn ei ystyried yn ddefnyddiol fel rhan o'r Adroddiad Perfformiad Integredig i roi sicrwydd i'r JCC. Eglurodd AH hefyd y byddai'r gwaith ar strwythurau is-bwyllgorau'r JCC yn cychwyn yn fuan a bydd hyn yn helpu i lywio cynnwys yr adroddiad gan y gellid rhoi gwybod am rywfaint o'r manylion drwy'r Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad ar ôl sefydlu hwn.</p> <p>Bu SH yn atgoffa'r aelodau o'r dangosyddion perfformiad Ambiwylans. Cafodd yr Aelodau wybod y diweddaraf am berfformiad hyd at 31 Mawrth 2024 ar gyfer y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys (EASC) gynt a nododd yr aelodau'r dangosyddion perfformiad allweddol ychwanegol ar gyfer 2024/2025 a gyflwynwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru (LIC).</p> <p>Nododd yr aelodau'r Dangosyddion Gwasanaeth Ambiwylans (ASI), y dangosfwrdd perfformiad ambiwlans, y ceisiadau rhyddhau ar unwaith a'r camau gweithredu Cynllun Gweithredu Comisiynu Integredig (ICAP) sy'n cyd-fynd â nodau'r Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng.</p> <p>Nododd yr Aelodau fod Prif Weithredwr GIG Cymru wedi ysgrifennu at bob bwrdd iechyd, WAST ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (VUNT) ar 7 Mai 2024 mewn perthynas â Dangosyddion Perfformiad Allweddol a bod disgwyl i bob sefydliad nodi trywydd gwella clir yn erbyn pob un i gyflawni cerrig milltir erbyn mis Rhagfyr 2024 a mis Mawrth 2025.</p> <p>Nododd yr Aelodau, o ran Ambiwylans a 111, er bod rhai gwelliannau'n cael eu gwneud, fod o fewn yr ASI a'r dangosfwrdd Perfformiad nifer o feysydd sy'n peri pryder ynghylch perfformiad ymateb ac oriau coll</p>

Cyf. Cof.	Eitem Agenda
	<p>a'r effaith ddilynol ar ofal cleifion. Amlygodd SH rywfaint o'r data allweddol o'r adroddiadau gan gynnwys mai targed cenedlaethol Cymru ar gyfer ymateb yn cyrraedd i alwadau COCH mewn 8 munud oedd 65%, y ffigur a adroddwyd ar gyfer mis Mawrth 2024 oedd 48.9%. Yr amser ymateb canolrif ar gyfer ymateb i alwadau AMBR oedd 1 awr 29 munud yn erbyn targed o 30 munud.</p> <p>Amlygodd SH y buddsoddiad a wnaed mewn ymatebwyr cyntaf cymunedol a oedd yn cael effaith gadarnhaol yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.</p> <p>O ran y galw am alwadau 999 a'r rhai a ddsbarthwyd yn rhai COCH roedd hyn yn cynyddu. Eglurodd SH fod hyn yn rhannol oherwydd categoreiddio galwadau coch a bod y gwasanaeth ambiwlans hefyd yn ymateb i fwy o alwadau coch o fewn 8 munud ond am fod y galw wedi cynyddu roedd y ffigur canrannol cyffredinol a gyflawnwyd yn is.</p> <p>Roedd SH yn siomedig o ddweud bod y ffigur 'clywed a thrin' wedi gostwng ychydig sef 0.2%. Yn ogystal, roedd cludiant ysbyty yn lleihau'n gyffredinol ond roedd amrywiad lleol sylweddol.</p> <p>Roedd yr oriau trosglwyddo a gollwyd tua 23,500 ym mis Mawrth 2024. Roedd hyn yn peri pryder gan fod targed newydd bellach wedi'i gyflwyno gan Ysgrifennydd y Cabinet i gwtogi 25% ar nifer yr ambiwlansys sy'n aros mwy nag awr erbyn mis Rhagfyr 2024. Byddai hyn yn cyfateb i ffigur o 18,130 o oriau a gollwyd, ac nid oedd gwelliant o'r fath wedi'i gyflawni o'r blaen felly roedd angen i'r system gyfan ymdrechu gymaint â phosibl er mwyn cyflawni yn erbyn y llwybr gwella newydd a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Amlygodd SH y meysydd yr oeddent yn eu targedu gyda WAST a oedd yn cynnwys anfonwr coch a dyrannu adnoddau. Eglurodd y byddai cyfleoedd i wella'r broses gomisiynu wrth i'r JCC gomisiynu gwasanaethau 111 a 999.</p> <p>Gofynnodd yr Aelodau am archwiliad dwfn o wasanaethau ambiwlans ac 111 yng nghyfarfod nesaf y JCC a thrafodwyd y dull o ymdrin â pherfformiad gyda WAST. Cytunodd yr Aelodau i ddatblygu cynllun gweithredu dangosydd perfformiad coch diwygiedig ar y cyd â WAST a chytunwyd i drafod yr ICAP gyda phob BI gyda'r bwriad o ganolbwyntio ar y blaenoriaethau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llif mewn ysbytai • Targedu cleifion ag anawsterau anadlu ac unigolion sydd wedi cwmpo er mwyn osgoi mynychu a derbyn diangen i'r ysbyty – defnyddio cartrefi gofal fel man cychwyn

Cyf. Cof.	Eitem Agenda
	<ul style="list-style-type: none"> • Targeddu cleifion iechyd meddwl er mwyn osgoi cynnydd yn y galw o newidiadau i reoliadau • Deall effaith a photensial pob un o'r uchod • Casglu a rhannu arfer gorau, a • Datblygu llwybrau i'w cymeradwyo gan y JCC. <p>Nododd yr Aelodau y trosolwg integredig o berfformiad gwasanaethau arbenigol a gomisiynwyd gan WHSSC gynt hyd at ddiwedd mis Chwefror 2024.</p> <p>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi adroddiad perfformiad EASC gynt a'r Dangosyddion Gwasanaeth Ambiwlans (ASI) ar gyfer mis 12 2023/2024, • Nodi adroddiad perfformiad WHSSC gynt ar gyfer mis 11 2023/2024; a • Nodi targedau ychwanegol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024/2025.
JCC24/031	<p>3.2.1 Adroddiad Perfformiad Ariannol Mis 12 – EASC a WHSSC</p> <p>Cafwyd yr adroddiadau perfformiad ariannol ar gyfer mis 12 2023-2024 ar gyfer EASC a WHSSC gynt er gwybodaeth a chyflawnrwydd a chyflwynwyd y crynodeb gan ST.</p> <p>Nododd yr Aelodau fod y sefyllfa alldro ar gyfer y ddau Gyd-bwyllgor blaenorol yn orwariant bach o £0.026m i EASC a thanwariant o £6.121m i WHSSC yn unol â'r rhagolygon a ddisgwyliwyd a adroddwyd trwy'r pwyllgorau trwy gydol 2023/24.</p> <p>Yn ogystal, rhoes ST wybod yn gryno, ar gyfer Mis 1 2024/25, fod sefyllfa ariannol y NWJCC newydd yn adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgaredd sydd ar gael (sef mis 12 ar gyfer y rhan fwyaf o gontractau darparwyr) neu'r sefyllfa cynllun ariannol a gytunwyd yn y Cyd-bwyllgorau blaenorol. Eglurodd ST fod y tîm wrthi'n gweithio gyda thimau cyllid darparwyr i asesu cynigion y darparwr yn erbyn cyllid y comisiynydd sydd ar gael, gyda'r nod o gymeradwyo Penawdau Cytundeb erbyn 28 Mehefin 2024. Nododd yr Aelodau nad oedd hyn heb risg ond eglurodd ST y byddai'r Pwyllgor yn cael ei ddiweddarau wrth i'r trafodaethau fynd rhagddynt.</p> <p>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi sefyllfa diwedd blwyddyn ariannol 2023/24 EASC gynt; a • Nodi sefyllfa diwedd blwyddyn ariannol 2023/24 WHSSC gynt.
JCC24/032	<p>3.3 Gwasanaethau Hunaniaeth Rhywedd i Blant ac Ifanc – Adroddiad Terfynol Adolygiad Cass</p>

Cyf. Cof.	Eitem Agenda
	<p>Cafwyd a chyflwynwyd gan Carole Bell (CB) adroddiad yn rhoi gwybod y diweddaraf am yr adroddiad terfynol ar yr adolygiad annibynnol dan arweiniad Dr Hilary Cass OBE a gomisiynwyd gan GIG Lloegr a NHS Improvement yn 2020 i wneud argymhellion ar y gwasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc a oedd yn archwilio eu hunaniaeth rhywedd neu sy'n destun anghyfathiant rhywedd.</p> <p>Nododd yr Aelodau mai nod Adolygiad Cass oedd sicrhau bod plant a phobl ifanc a oedd yn cwestiynu eu hunaniaeth rhywedd neu'n destun dysfforia rhywedd ac yr oedd angen cymorth y GIG arnynt, yn cael gofal o safon uchel a oedd yn diwallu eu hanghenion ac yn ddiogel, yn gyfannol ac yn effeithiol. Nodwyd bod gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn cael eu comisiynu gan ddarparwyr yn Lloegr.</p> <p>Bu CB yn atgoffa'r aelodau fod y JCC yn comisiynu BIP Caerdydd a'r Fro i ddarparu gwasanaethau hunaniaeth rhywedd i oedolion (heb fod yn llawfeddygol) trwy Wasanaeth Rhywedd Cymru (WGS) ac er i'r gwasanaeth hwn gael ei gomisiynu yng Nghymru, yng ngoleuni Adolygiad Cass a argymhellodd adolygiad o wasanaethau oedolion, cynigiwyd bod JCC GIG Cymru yn gweithio gyda GIG Lloegr i adolygu'r fanyleb gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau oedolion (heb fod yn llawfeddygol). Nodwyd bod disgwyl i fanyleb Cymru gael ei hadolygu ym mis Gorffennaf 2024.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i CB am grynodedb yr adroddiad a chydabu fod angen sensitifrwydd yn ystod trafodaethau oherwydd bod y materion yn ymwneud â phobl ifanc agored i niwed yn ogystal ag ymwybyddiaeth o unrhyw wrthdaro posibl a chyd-reddeg â chynllun gweithredu LGBT Llywodraeth Cymru. Amlygodd y Cadeirydd hefyd fod angen gwaith o hyd yng Nghymru o ran mynediad amserol i blant a phobl ifanc yn ogystal ag ystyried unrhyw oblygiadau i oedolion.</p> <p>Cydnabu SR fod hon yn drafodaeth a allai fod yn heriol gyda rhai safbwyntiau hollt. Eglurodd SR fod rhai o glinigwyr BIPCF yn cwestiynu a oedd mabwysiadu argymhellion Adolygiad Cass yn briodol i Gymru gan y gallai gwledydd datganoledig eraill fod yn cymryd ymagwedd wahanol. Holodd SR a oedd unrhyw ddulliau amgen wedi'u hystyried ar ffurf rhywfaint o eglurder ynghylch pa opsiynau a ystyriwyd cyn gwneud ymrwymiad i ddilyn model Lloegr.</p> <p>Gofynnodd SR a fyddai modd rhannu llythyr LIC gydag aelodau'r JCC.</p> <p>Adleisiodd HT sylwadau SR a chroesawodd drafodaeth bellach ar sut y gellid ymdrin â'r elfennau ymgynghori cyhoeddus gan gydnabod bod llawer o randdeiliaid a bod hwn yn fater sensitif gyda safbwyntiau hollt. Croesawodd HT ragor o wybodaeth mewn perthynas ag</p>

Cyf. Cof.	Eitem Agenda
	<p>ymsgynghoriad cyhoeddus ar ddefnyddio hormonau cadarnhau rhywedd yn ogystal â'r gwaith manyleb gwasanaeth ehangach a gofynnodd am eglurder ar y dull gweithredu i sicrhau'r dull o wrando ar boblogaeth Cymru. Yn ogystal, roedd HT yn poeni am y 259 o blant a phobl ifanc a oedd eisoes yn aros am wasanaethau a soniodd yr adroddiad y gallai'r amseroedd aros i gael at y gwasanaeth gynyddu. Gofynnodd HT a oedd eglurder ynghylch y risgiau a'r niwed posibl a allai godi o ganlyniad i'r amseroedd aros cynyddol posibl.</p> <p>Ymatebodd ac eglurodd CB fod gwaith wedi'i wneud a bod Fforwm Cynghori Ieuenctid wedi'i sefydlu gyda chynrychiolaeth o Gymru a chytunodd CB ei bod yn hanfodol sicrhau bod Cymru'n cael ei chynrychioli a'i chlywed yn ogystal â sicrhau y gallai cleifion o Gymru gymryd rhan. Eglurodd CB fod y sylfaen dystiolaeth yn dal i fod yn gymharol gyfyngedig. Roedd yna ymholiad mewn perthynas â'r sefyllfa yn yr Alban a chytunodd CB i ymchwilio ymhellach i'r mater hwn a diweddarau'r aelodau.</p> <p>Cefnogodd Chris Stockport (CS) sylwadau SR, a chytunodd y gallai fod rhywfaint o werth ystyried dull gwerthuso opsiynau yn hytrach na dilyn sefyllfa Lloegr yn unig gan fod clinigwyr yn BCU hefyd a oedd wedi mynegi safbwyntiau gwahanol.</p> <p>Dywedodd Shane Mills (SM) ei bod yn bwysig sicrhau y dylid cynnig cymorth emosiynol ac iechyd meddwl i'r plant a'r bobl ifanc sy'n aros am wasanaethau ar hyn o bryd a bod angen sicrhau aelodau bod hyn yn cael ei ddarparu'n lleol. Cadarnhaodd CB fod pobl ifanc yn cael eu cyfeirio at y darparwr o Loegr drwy wasanaethau CAMH a'u bod yn cael eu cefnogi ar hyd y llwybr.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu sylwadau a'u hymholiadau, a chadarnhaodd fod yr adroddiad yn ddechrau defnyddiol i'r sgwrs bwysig hon ond bod angen mwy o wybodaeth cyn y byddai'r Cyd-bwyllgor mewn sefyllfa i gymeradwyo argymhellion Adolygiad Cass yn llawn. Cytunodd yr Aelodau fod angen gwybodaeth bellach gan gynnwys ymgysylltiad clinigol ac eglurder ynghylch sefyllfa gwledydd datganoledig eraill. Cytunwyd y ceir adroddiad pellach yn y cyfarfod nesaf yn cofnodi'r trafodaethau a gynhaliwyd.</p> <p>Cytunodd CB ac amlygodd ei bod yn awyddus i ymgysylltu â chlinigwyr a oedd â barn wahanol ar sut y gellid datblygu'r gwasanaeth ond, yn y pen draw, roedd hyn yn ymwneud â gwasanaethau plant ac roedd y model clinigol ar gyfer darparu gwasanaeth rhywedd i oedolion yn wahanol; roedd gwasanaethau rhywedd plant a phobl ifanc yn wahanol. Atgoffodd CB yr Aelodau hefyd fod Adolygiad dros dro Cass wedi cael ei ystyried gan Gyd-</p>

Cyf. Cof.	Eitem Agenda
	<p>bwyllgor WHSSC gynt a bod hyn yn cynnwys trafodaeth a chyfeiriadau at gydredeg gwasanaethau â gwasanaethau plant ac Ysbyty Plant Cymru.</p> <p>Cytunodd HT fod yr hyn a nodwyd yn ddull defnyddiol ond amlygodd fod yr adroddiad yn cyfeirio at yr adolygiad systematig o'r gwasanaeth oedolion. Hefyd, dywedodd HT y byddai'r gwaith ymgynghori yn cyd-fynd â'r elfen gyflawni yn erbyn yr argymhellion hynny.</p> <p>Diolchodd AH i'r aelodau am eu cyfraniadau a chytunodd y byddai mwy o waith yn cael ei wneud ar argymhellion Adolygiad Cass a fyddai'n cynnwys gwirio a oedd unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth bellach ar gael i'r aelodau gan hefyd egluro'r sefyllfa ledled y DU. Roedd yn bwysig gwrandao ar bob barn ond roedd angen sicrhau ffocws cryf iawn ar anghenion plant a phobl ifanc. Cyfeiriodd AH hefyd at yr angen i sicrhau nad yw'r JCC yn ansefydlogi'r llwybrau i'r darparwyr newydd er mwyn osgoi oedi cynyddol. Hefyd, o ran manyleb y gwasanaeth, roedd angen sicrhau bod cydweithwyr yn gyfarwydd â'r rhain yn unol â gwasanaethau CAMH a gwasanaethau Pediatreg. Cytunodd AH i gylchredeg y llythyr gan Lywodraeth Cymru a nododd yr aelodau yn anffodus ei fod wedi cyrraedd ar ôl i bapurau'r JCC gael eu cylchredeg.</p> <p>GWEITHRED: Rhannu llythyr LIC yn ymwneud â Rhywedd gydag aelodau'r JCC.</p> <p>GWEITHRED: Darparu rhagor o wybodaeth ynghylch sefyllfa gwledydd datganoledig eraill a thystiolaeth sy'n llywio adolygiad a dull comisiynu.</p> <p>Awgrymodd AH hefyd sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar wahân i ymateb i rai o'r materion a godwyd yn y cyfarfod a theimlai AH y byddai'n bwysig iawn cynnwys SR fel Prif Weithredwr BIP Caerdydd a'r Fro a oedd yn darparu Ysbyty Plant Cymru a'r gwasanaeth rhywedd oedolion. Cytunodd yr Aelodau â'r dull gweithredu a amlinellwyd uchod.</p> <p>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:</p>

Cyf. Cof.	Eitem Agenda
	<ul style="list-style-type: none"> • Nodi argymhellion Adolygiad Cass a pharhau i gydredeg JCC GIG Cymru â Chynllun Gweithredu GIG Lloegr • Nodi cyfarwyddyd Ysgrifennydd y Cabinet fod Gwasanaeth Rhywedd Cymru yn cydweithio'n llawn wrth gyflwyno'r astudiaeth cysylltu data • Nodi'r goblygiadau i CAMHS y gall fod angen adnoddau ychwanegol arnynt y tu allan i'r gwasanaeth a gomisiynwyd, a • Nodi bod Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru wedi ysgrifennu at Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i sefydlu gweithgor i ystyried yr hyfforddiant presennol sydd ar gael ar gyfer gofal rhywedd. Byddai'r gwaith hwn yn cynnwys cysylltu â'r gwaith sy'n cael ei wneud gan GIG Lloegr i sicrhau cysondeb o ran dull a mynediad at ddeunyddiau hyfforddi. • Cytuno i grŵp gorchwyl a gorffen bach i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y cyfarfod ac i adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y JCC.
JCC24/033	<p>3.4 Cynllun Gwaith a Diweddariad Perfformiad ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu</p> <p>Cafwyd adroddiad yn amlygu'r gwaith hyd yma ac yn amlinellu'r rhaglen waith ar gyfer 2024/25 mewn perthynas â gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu ar gyfer yr hen Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol (NCCU) a chyflwynwyd yr uchafbwyntiau gan Shane Mills (SM).</p> <p>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi'r Cynllun Gwaith a'r Diweddariad Perfformiad ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a arferai fod yn rhan o'r Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol.
JCC24/034	<p>3.5 Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol</p> <p>Cafwyd adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion llywodraethu corfforaethol a oedd wedi codi ers y cyfarfod blaenorol. Cafwyd adroddiadau gan y canlynol a chymerwyd eu bod wedi'u darllen:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynllun Busnes Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2024-2025 • Adroddiad Blynyddol Grŵp Rheoli WHSSC gynt • Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion WHSSC gynt • Adroddiad Blynyddol Rhwydwaith Arenau Cymru • Adroddiad Blynyddol Cais Cyllido Claf Unigol • Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Integredig • Datganiad Llywodraethu Blynyddol EASC gynt • Datganiad Llywodraethu Blynyddol WHSSC gynt

Cyf. Cof.	Eitem Agenda
	<ul style="list-style-type: none"> • Datganiad Llywodraethu Cydymffurfiaeth Blynyddol NCCU gynt, a • Llythyr Ymholiadau Archwilio ar gyfer EASC a WHSSC gynt. <p>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi'r adroddiad • Cymeradwyo Cynllun Busnes Blynyddol Pwyllgor y JCC ar gyfer 2024-2025 • Cymeradwyo Datganiadau Llywodraethu Blynyddol 2023-2024 ar gyfer EASC a WHSSC, a'r Datganiad Llywodraethu Cydymffurfiaeth Blynyddol ar gyfer NCCU 2023-2024, • Adolygu'r ymatebion a baratowyd ar gyfer ymatebion Llythyr Ymholiadau Archwilio Blynyddol EASC a WHSSC gynt ar gyfer 2023-2024 ac, yn amodol ar unrhyw welliant gofynnol, eu cymeradwyo i'w cyflwyno ymlaen i Archwilio Cymru, a • Nodi'r diweddariad ar ddatblygiad cytundeb cynnal y JCC a'i femorandwm cytundeb.
JCC24/035	<p>4.1 Adroddiadau gan Is-bwyllgorau ar y Cyd WHSSC</p> <p>Cafwyd adroddiadau gan Is-bwyllgorau ar y Cyd canlynol WHSSC a chymerwyd eu bod wedi'u darllen:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adroddiadau Sicrwydd y Pwyllgor Archwilio a Risg (ARC) • Briffiau Grŵp Rheoli WHSSC gynt • Panel Cais Cyllido Claf Unigol (IPFR) • Pwyllgor Llywodraethu Integredig (IGC) • Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion (QPSC) • Rhwydwaith Arenau Cymru (WKN) <p>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi'r adroddiadau.
JCC24/036	<p>5.1 Unrhyw Fusnes Arall</p> <p>Nid oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod.</p>
JCC24/037	<p>4.2 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf (Trefnwyd)</p> <p>Nododd y Cyd-bwyllgor y byddai'r cyfarfod nesaf a drefnwyd yn cael ei gynnal ar 16 Gorffennaf 2024.</p>
JCC24/038	<p>4.3 Penderfyniad Mewn Pwyllgor</p> <p>Argymhellodd y Cyd-bwyllgor y dylid gwneud y penderfyniad canlynol: "Gwahardd cynrychiolwyr y wasg ac aelodau eraill o'r cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn o ystyried natur gyfrinachol y busnes sydd i'w drafod, y byddai cyhoedduswydd iddo'n niweidiol i les y cyhoedd" (Adran 1 (2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960)".</p>

Llofnod y Cadeirydd:

Dyddiad:.....

CADARNHAWYD